Cyflwyno is-ddeddfau newydd eogiaid a sewin - Canllaw byr i bysgotwyr

Afon Taf, Elái a Rhymni

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Eogiaid

Rhaid rhyddhau pob eog gan achosi cyn lleied o niwed ac oedi ag sydd bosibl

Tymor Eogiaid – 20 Mawrth hyd at 17 Hydref								
	Mawrth	Ebrill	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hydref
Plu		20 Mawrth – 17 Hydref						
Troelli		20 Mawrth – 17 Hydref						
Mwydod	Dim pysgota â mwydod							
Perdys a chorgimychiaid							1 Medi – 30 Medi	

Sewin

Dylid rhyddhau pob sewin a fydd yn cael ei ddal cyn 1 Mai gan achosi cyn lleied o niwed ac oedi ag sydd bosibl.

Dylid rhyddhau pob sewin sy'n fwy na 60cm gan achosi cyn lleied o niwed ac oedi ag sydd bosibl.

Tymor sewin – 20 Mawrth hyd at 17 Hydref								
	Mawrth	Ebrill	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hydref
Plu		20 Mawrth- 17 Hydref						
Troelli		20 Mawrth- 17 Hydref						
Mwydod			1 Mai – 30 Medi					

Caniateir pysgota â mwydod yn achos sewin yn unig gydag un mwydyn a chan ddefnyddio bachyn sengl heb adfach â cheg llai na 8mm.

Sylwer – mae'r dyddiadau yn gynhwysol

Bachau

Rhaid i bob bachyn fod heb adfach neu rhaid tynnu'r adfach

Ar blu artiffisial gyda bachyn â cheg sy'n fwy na 7mm, cyfyngir bachau i rai sengl neu ddwbl

Ar blu artiffisial gyda bachyn â cheg 7mm neu lai, cyfyngir bachau i ddim mwy na dau fachyn â chyfanswm o bedwar pwynt rhyngddynt

Ni chaniateir defnyddio bachau triphlyg neu ddwbl ar lithiau ar gyfer troelli

Un bachyn sengl yn unig â cheg 13mm neu lai a ganiateir ar droellwyr a bachau llwy.

Ni chaniateir mwy na thri bachyn sengl ar blygiau, a phob un â cheg 13mm neu lai.

Caniateir defnyddio perdys a chorgimychiaid ar gyfer pysgota o 1 Medi hyd at 30 Medi drwy ddefnyddio un bachyn triphlyg gyda cheg sy'n llai na 7mm.



Gellir darganfod rhagor o fanylion is-ddeddfau sy'n effeithio ar afonydd Cymru, brithyllod anfudol, pysgod bras ar dudalennau pysgodfeydd CNC. https://naturalresources.wales/days-out/things-to-do/fishing/?lang=en